RHONDDA CYNON TAF

.

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar-lein Ddydd Mercher, 10 Chwefror 2021 am 5.00pm

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd H Boggis |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd A Calvert |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd A Chapman |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd A Crimmings |
| Y Cynghorydd J Cullwick | Y Cynghorydd G Davies |
| Y Cynghorydd J Davies | Y Cynghorydd L De Vet |
| Y Cynghorydd M Diamond | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd M Fidler Jones | Y Cynghorydd M Forey |
| Y Cynghorydd A Fox | Y Cynghorydd H Fychan |
| Y Cynghorydd E George | Y Cynghorydd E Griffiths |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd L Hooper |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd L Jones |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd S Pickering | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd S Powell | Y Cynghorydd S. Rees-Owen |
| Y Cynghorydd S Rees | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd J Rosser | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd E Stephens | Y Cynghorydd G Thomas |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd R Turner |
| Y Cynghorydd L Walker | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C. Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B. Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N. Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A. Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

## 96 Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd y sawl a oedd yn bresennol a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L. M. Adams, S. Belzak, A. Davies-Jones, S. Evans, D. Grehan, M. Griffiths, J. Harries, J. James, K. L. Jones, K. Morgan, W. Owen, M. Tegg, G. Williams, D. Williams a C. Willis.

## 97 Datganiad o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

- Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6 yr agenda, Cwestiynau gan Aelodau - 'Mewn perthynas â chwestiwn 2, rwy'n gweithio mewn Banc Bwyd';

- Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 9 yr agenda, Rhybudd o Gynnig – 'Rwy'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n darparu Credyd Cynhwysol, sef pwnc un o'r cynigion. Ni fyddaf yn cymryd rhan yn y drafodaeth a byddaf yn ymatal rhag pleidleisio';

- Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6 yr agenda, Cwestiynau gan Aelodau – 'Mewn perthynas â chwestiwn 2, rwy'n gwirfoddoli ym Manc Bwyd Merthyr Cynon';

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. George fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6 yr agenda, Cwestiynau gan Aelodau – 'Mewn perthynas â chwestiwn 2, rwy'n gwirfoddoli ym Manc Bwyd Merthyr Cynon'.

## 98 Incwm Sylfaenol Cynhwysol

Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad ar lafar gan Mr J. Williams (UBI Lab Cymru) a Mr S. Thomas (UBI Lab RhCT), a geisiodd ddarparu gwybodaeth i Aelodau am y gwaith sydd wedi'i gyflawni mewn perthynas ag Incwm Sylfaenol Cynhwysol o safbwynt lleol a safbwynt Cymru gyfan.

Cyn y cyflwyniad, manteisiodd y cynrychiolydd ar y cyfle i ddiolch i Gyngor RhCT am gefnogi a mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig mewn perthynas ag Incwm Sylfaenol Cynhwysol yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2020.

Cafodd yr Aelodau wybod bod UBI Cymru yn hyb i'r labiau yn y Bwrdeistrefi yn y bôn, a'r uchelgais yw i Awdurdodau Lleol eraill ddilyn camre RhCT wrth gefnogi Incwm Sylfaenol Cynhwysol. Er mwyn cyflawni'i nod a gyrru'r drafodaeth am Incwm Sylfaenol Cynhwysol yn ei flaen, roedd UBI Cymru yn sefydlu labiau ar draws Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gytuno ar ddiffiniad o Incwm Sylfaenol Cynhwysol yng nghyd-destun Cymru.

Yn ystod y cyflwyniad, rhoddodd y cynrychiolwyr wybodaeth fanwl i'r Aelodau am y canlynol:

- Y diffiniad o Incwm Sylfaenol Cyffredinol a pham yr oedd UBI Lab Cymru

yn ei ystyried fel y polisi addas er mwyn goresgyn â heriau'r 21ain ganrif;

- Y treialon a'r deilliannau blaenorol;
- Cynllun peilot delfrydol UBI Lab Cymru; a
- Cyfleoedd cyllido posibl a'r posibilrwydd iddo redeg ochr yn ochr â'r Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd dros y degawd nesaf.

Manteisiodd Arweinydd y Cyngor ar y cyfle i ddiolch i'r unigolion am y diweddariad cynhwysfawr. Cydnabu'r Arweinydd yr amddifadedd y mae pobl yn ei brofi yn y Fwrdeistref, yn enwedig yn ystod y pandemig Covid-19, a nododd pe bai cyllid ar gael wrth Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru, bydd RhCT yn cefnogi treialu cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cynhwysol. Pwysleisiodd yr Arweinydd ei fod yn bosibl y byddai canlyniadau'r cynllun peilot yn awgrymu nad Incwm Sylfaenol Cynhwysol yw'r ffordd orau ymlaen, ond roedd yn fodlon cefnogi ei dreialu.

Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at ddatganiad UBI Lab Cymru syn nodi fod 8% o bobl yn unig yn gwybod beth yw Incwm Sylfaenol Cynhwysol a gofynnodd sut y byddai gwybodaeth am y cynllun peilot yn cael ei chyfathrebu â chymunedau lleol. Dywedodd y cynrychiolydd y byddai'r labiau yn y Bwrdeistrefi yn ceisio ymgysylltu wyneb yn wyneb â chymunedau lleol, yn dibynnu ar reoliadau Covid-19 yn y dyfodol. Byddai hyn yn ychwanegol at ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a phapurau newyddion.

Soniodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell am astudiaethau achos tebyg ac roedd yn fodlon cefnogi cynllun peilot yn RhCT. Awgrymodd yr Aelod y dylai'r cynllun peilot dargedu'r cymunedau sydd wedi'u hamddifadu fwyaf a theimlodd y byddai'n rhaid ei weithredu dros gyfnod estynedig, er mwyn gweld unrhyw fuddion a allai ddod ohono.

**99 Cyhoeddiadau**

1. Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman wybod i'r Aelodau am Mrs Eva Cotter, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 100 y llynedd, ac sydd newydd gael ei brechlyn Covid. Hi yw'r claf 100 oed cyntaf yn ei Meddygfa ym Mhenrhiwceiber. Soniodd y Cynghorydd Jarman am edmygedd Mrs Cotter o'r bobl sydd wedi datblygu'r brechlyn gan ei bod hi wedi byw mewn oes lle'r oedd y diciâu, y frech wen, y frech goch, rwbela a chlwy'r pennau yn rhemp yn ein cymunedau cyn bod brechlynnau ar gael. Ychwanegodd y Cynghorydd Jarman fod Mr Cotter yn ysbrydoliaeth i nifer a gofynnodd i lythyr gael ei anfon ati wrth y Faeres ar ran y Cyngor.

2. Manteisiodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman ar y cyfle i gydnabod cyflawniadau a charedigrwydd Amy MacKintosh, disgybl blwyddyn 9 yn Ysgol Gyfun Aberpennar, a oedd wedi ennill £1,000 ar ran Pwll Gerddi Leigh ym Mhenrhiwceiber yn y gystadleuaeth 'Rhowch Gymorth o Adref' gyntaf. Cafodd yr Aelodau wybod bod Amy wedi ymgymryd â'i phrosiect dan faner rhaglen ddysgu cymysg Addysg Grefyddol dan arweiniad ei hathro, Mr Dave Church. Gan weithio gyda Julie Cook, BEM, hyrwyddwr cymunedol yn archfarchnad Asda Aberdâr, dosbarthodd Amy de prynhawn a nwyddau hanfodol i 9 o gymdogion oedrannus. Dywedodd y Cynghorydd Jarman fod Amy'n destun balchder i'r ysgol gyfun a Phwyllgor Pwll Gerddi Leigh, a gofynnodd i'r Faeres anfon llythyr ati i gydnabod ei chyflawniad.

Llongyfarchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen yr actor lleol Callum Scott Howells am ei berfformiad yn nrama newydd Russell T. Davies, 'It's a Sin', a soniodd am lwyddiant Callum a'r sioe. Soniodd y Cynghorydd Rees-Owen am y cymeriad y buodd Callum yn ei chwarae, a oedd wedi cyffwrdd â'r gwylwyr, a rhoi gobaith iddynt. Siaradodd yr Aelod am berfformiadau Callum yn Theatr y Parc a'r Dâr dros y blynyddoedd, gan gyfeirio at berfformiadau gydag Only Boys Aloud ac Ysgol Gyfun Treorci, lle y bu Callum yn brif fachgen. Cafodd yr Aelodau wybod bod Callum wedi diolch i'r sîn gelfyddydau leol am y cyfleoedd a'r llwyfannau a oedd ar gael iddo, er mwyn ei helpu i ddysgu a ffynnu. Nododd y Cynghorydd Rees-Owen y dyfodol disglair a chyffrous sy'n aros Callum a dymunodd y gorau iddo.

**100 Council Procedure Rule 15.1**

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

**101 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y 25 Tachwedd 2020 a 16 Rhagfyr 2020 yn rhai cywir.

**102 Datganiadau**

**Datganiad gan y Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor**

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd wybod i'r Aelodau am ffair yrfaoedd rithwir y Cyngor a oedd wedi digwydd yn y gynharach y diwrnod hwnnw. Nododd mai hon oedd y ffair yrfaoedd rithwir gyntaf i gael ei chynnal yng Nghymru. Roedd dros 30 o gyflogwyr yn cymryd rhan a 525 o swyddi gwag ar gael. Roedd yn cynnwys 30 gweminar, gan gynnwys manylion am gynllun prentisiaethau a rhaglen i raddedigion y Cyngor.

Cafodd yr Aelodau wybod bod 1604 o bobl wedi cofrestru ar gyfer yr achlysur, gyda 274 yn mewngofnodi yn ystod yr 20 munud gyntaf, a 660 yn mewngofnodi yn ystod y 2 awr gyntaf. Roedd yr achlysur wedi'i wylio dros 6000 o weithiau.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i staff yr Adran Adnoddau Dynol am y gwaith a wnaed i gynnal yr achlysur a roddodd gyfle i drigolion gyfranogi, a chanfod swyddi o safon uchel ar draws y Fwrdeistref Sirol, a gwneud cais amdanynt.

***

**Datganiad gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai**

Dywedodd yr Aelod Cabinet wrth yr Aelodau am gyfarfod yr aeth iddo ar 29 Ionawr gyda Mick Antoniw (Aelod o'r Senedd), Alex Davies-Jones (Aelod Seneddol) ac Aelod o AGB Pontypridd, a gyfarfu â chynrychiolwyr o HSBC. Cafodd yr Aelodau wybod am gynnig HSBC i gau'i ganghennau ym Mhontypridd a Thonysguboriau fel ei gilydd, a bod y rhesymeg, gan gynnwys data ynglŷn â

defnyddwyr, wedi'i chyflwyno. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am geisiadau'r Aelodau i gadw'r canghennau neu fwrw ymlaen â llai o oriau/cynllun symudol o fewn y canghennau, ond gwrthodwyd y ddau gynnig. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet pe bai'r canghennau'n cau yna ni fyddai cangen HSBC ar gael yn RhCT. Roedd cynrychiolwyr y banc wedi rhoi gwybod am drefniadau amgen y dylid eu trafod, gan gynnwys defnyddio swyddfeydd post lleol a rheoli cyfrifon yng nghanghennau Caerffili a'r Bontfaen. Lleisiodd Aelodau eu pryder yn y cyfarfod ynglŷn ag hygyrchedd y canghennau amgen a oedd wedi'u cynnig a'r effaith ar drigolion sy'n agored i niwed. Cadarnhaodd cynrychiolwyr HSBC fod cyswllt eisoes wedi'i wneud â thrigolion o'r fath.

Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i ddatganiad i ben trwy gynghori bod cais wedi'i wneud am fanylion cyswllt uwch swyddogion rheoli'r DU yn y banc er na dderbyniwyd unrhyw beth hyd yn hyn.

**103 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:**
"A wnaiff y Dirprwy Arweinydd amlinellu pa gynlluniau sy'n cael eu datblygu i hwyluso cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu?"

**Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:**
Dywedodd y Dirprwy Arweinydd wrth yr Aelodau y byddai'r Gwasanaethau Democrataidd yn ceisio rhoi dull hybrid ar waith ar gyfer cyfarfodydd unwaith y byddai'r cyfyngiadau yn caniatáu hynny. Bydd hyn yn digwydd fesul tipyn, yn debyg i'r ffordd yr aeth y Cyngor ati i gyflwyno cyfarfodydd rhithwir y llynedd. Dywedodd y byddai hyn yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y dyfodol agos tra y byddai hefyd yn caniatáu cynnal arferion cadw pellter cymdeithasol. Ychwanegodd y dylai Aelodau gael penderfynu a ydyn nhw am gyfranogi o'r dull hwn.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Forey**:
"Sut y gellid adeiladu ar hyn ar gyfer y dyfodol?"

Atebodd y Dirprwy Arweinydd trwy ddweud mai dyhead ehangach y Cyngor yw gwreiddio'r dull hwn, er mwyn galluogi Aelodau i gyfrannu yn y ffordd fwyaf hyblyg sy'n gweddu i'w sefyllfa, a bod y dull hwn ar gael i Awdurdodau Lleol drwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol newydd. Ychwanegodd y bydd y Cyngor eisiau gwneud y mwyaf o'i gyfleusterau gweddarlledu newydd, gan adeiladu ar ein profiadau hyd yma, ac roedd hi'n gobeithio y byddai'r dull yma hefyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y dyfodol a rhoi cyfleoedd gwell o ran ymgysylltu a chyfranogi i Aelodau a thrigolion.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Boggis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, y Cynghorydd R. Lewis:**

"Sut mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi banciau bwyd lleol?"

Atebodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol gan ddweud fod swyddog penodol yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r prif fanciau bwyd fel bod modd i'r Awdurdod ddarparu cymorth amserol yn ôl y galw. Ychwanegodd fod hyn yn cynnwys:

- Darparu cynhyrchion bwyd sy'n brin o'r Ganolfan Ddosbarthu Bwyd yn Llanilltud Faerdref;

- Sicrhau bod pobl ar gael i weithio yn ystod y gwyliau i fodloni'r galw am barseli bwyd mewn argyfwng (dim ond 2 oedd eu hangen dros wyliau'r Nadolig);

- Sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer derbyn nwyddau os oes angen (does neb wedi gofyn am hyn hyd yma); a

- Darparu mynediad i adeiladau'r Cyngor er mwyn eu defnyddio fel gofod storio (er enghraifft, mae Banc Bwyd Taf-Elái yn defnyddio Canolfan Oriau Dydd y Gilfach Goch i storio eitemau bwyd ar hyn o bryd).

Mae gallu'r Cyngor i brynu ar raddfa fawr wedi'i nodi fel rhywbeth sy'n arbennig o werthfawr i'r banciau bwyd ac maen nhw wedi awgrymu bod hyn yn rhoi sicrwydd iddynt pan mae eu cyflenwadau yn lleihau.

Mae Grant Cymorth Bwyd RhCT a sefydlwyd trwy gyfraniad o £10,000 oddi wrth y Cyngor a £10,000 oddi wrth Trivallis yn darparu adnoddau i fanciau bwyd a chynlluniau cymorth bwyd yn RhCT. Hyd yn hyn mae 14 o geisiadau am grantiau o £500 wedi'u derbyn a'u cymeradwyo.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd H. Boggis**:
“Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n gysylltiedig â thlodi bwyd?”

Atebodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol fod dau gynllun penodol lle mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r mater yma sef cynllun The Sustainable Food Places a Cychwyn Iach. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cais llwyddiannus am grantiau datblygu byr dymor o dan gynllun The Sustainable Food Places.

Nod y cynllun yw creu Rhwydwaith Ffyniant Bwyd a Llwybr Ymateb Bwyd yn y Sir sy'n canolbwyntio ar sefydlu system fwyd iachach a mwy cynaliadwy ar lefel Sirol. Y cam nesaf yw rhoi'r dulliau a'r modelau gorau ar gyfer partneriaethau a rhaglenni bwyd yn RhCT ar brawf. Bydd hyn yn cynnwys gweithdai ar-lein gyda derbynwyr grantiau eraill sydd wedi'u hwyluso gan garfan yr SFP.

Disgwylir i dderbynwyr grantiau weithio'n agos gyda charfan SFP UK a'u partneriaid cenedlaethol ac mae'r cynllun yn cynnwys dull partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol, cyrff iechyd cyhoeddus a sefydliadau eraill, ac yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, busnesau a chymunedau.

Rhaglen â phrawf modd yw Cychwyn Iach sydd wedi'i dylunio i wella iechyd menywod beichiog incwm isel a theuluoedd ar fudd-daliadau a chredydau treth. Mae hawlwyr a phlant cymwys rhwng 1 a 4 oed yn derbyn 1 taleb gwerth £3.10

bob wythnos i helpu i brynu rhai bwydydd sylfaenol. Gall plant dan 1 oed gael 2 daleb bob wythnos (£6.20). Mae llaeth buwch, ffrwythau a llysiau ffres / wedi'u rhewi / tun, a llaeth fformiwla i fabanod ymhlith eitemau y mae modd eu prynu. Ychwanegodd fod y data mwyaf diweddar yn dangos bod tua 77% o'r rhai sy'n gymwys yn RhCT yn manteisio ar y cynnig hwn ac mae Swyddogion yn gweithio gyda Theuluoedd Cydnerth i fynd i'r afael â hyn.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**
"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddarparu diweddariad am y gwaith ym Mharc Coffa Ynysangharad?"

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth fod y Cyngor wedi cyhoeddi ychydig cyn y Nadolig bod pecyn cyllid sylweddol wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru, trwy raglen Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a hefyd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r gwaith i gyflawni'r elfennau hynny sy'n rhan o gylch gorchwyl Parc Rhanbarthol y Cymoedd eisoes wedi dechrau, ac mae cynnydd gwych yn cael ei wneud. Mae'r rhan hon o'r gwaith yn canolbwyntio ar uwchraddio'r llwybrau troed y llwybrau canolog drwy'r parc ac o'i gwmpas, a'r bwriad yw ei gwneud yn lle mwy diogel a mwy deniadol i ymweld ag ef.

Ychwanegodd y byddai'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys llwybr newydd i wella'r cyswllt o'r Lido i'r Brig Craig Ffug, y Safle Seindorf, y Gofeb Rhyfel a'r ganolfan hyfforddi newydd - sy'n rhan o Brosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gwerth £1.9 miliwn. Yn ogystal â hyn, bydd y goleuadau ar hyd y llwybrau'n cael eu huwchraddio mewn modd sy'n ystyrlon o dreftadaeth y parc, a bydd mantais ychwanegol gan eu bod yn fwy effeithlon o ran ynni. Yn ddiweddarach eleni, bydd gwaith hefyd yn cychwyn ar y Prosiect Cysylltu Cymunedau, sy'n deillio o gyfanswm o £1.9m o gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

Dywedodd fod hwn yn brosiect cyffrous iawn a fyddai'n gweld llu o nodweddion newydd a gwell, gan gynnwys:

- Adeiladu canolfan ddysgu a lles newydd
- Gwelliannau o ran hygyrchedd a bioamrywiaeth
- Adfer nodweddion allweddol, fel y safle seindorf, yr ardd isel a'r brig craig ffug.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd J. Brencher**:
"A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran atgyweirio Pont Droed Parc Ynysangharad?"

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth fod y bont wedi'i rhoi yn ei lle gan Centregreat, y prif gontractwr. Mae angen atgyweiriadau pellach ac ailosod y gwifrau sefydlogi a'r

mast, yn ogystal â gwaith gosod yn yr ardal o gwmpas y bont. Ychwanegodd fod y Cyngor yn disgwyl i'r contractwr orffen ei waith ymhen rhyw 4 wythnos, er bod rhannau o'r gwaith adfer yn y Parc yn dibynnu ar y tywydd. Mae'r tymheredd sy'n effeithio ar baentio hefyd yn ffactor, yn ogystal ag aros i'r wifren sefydlogi newydd i gyrraedd.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"A fydd y Cynghorydd Morgan yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch ble mae'r Cyngor arni o ran atgyweirio neu ddymchwel Pont Heol y Berw os gwelwch yn dda? ”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan:**
Dywedodd yr Arweinydd fod monitro'r bont yn parhau gan Redstart. Roedd trafodaethau'n parhau gyda CADW ac ymgynghorwyr peirianneg treftadaeth (CARE), Mann Williams, ynglŷn â'r atgyweiriadau. Mae'r holl gyfleustodau wedi'u tynnu o'r bont - ar wahân i rai Wales and West Utilities, sy'n dal i weithio ar ei ddatrysiad gan fod ganddo oblygiadau mawr.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod am y canlynol:

- Bod arolwg ac asesiad o'r sgwrfa wedi'u cyflawni gan gontractwyr arbenigol

- Bod y Cyngor wedi cynllunio cynigion i atgyweirio'r sgwrfa ac wedi gofyn am ddyfynbrisiau gan gontractwyr arbenigol (amcangyfrif £80-100k).

- Bod angen gwneud cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig er mwyn cyflawni'r atgyweiriadau sgwrfa.

- Bod trafodaethau'n mynd yn eu blaenau â Cyfoeth Naturiol Cymru o ran amseru'r gwaith. (bydd hyn, o bosibl, mor gynnar ag Ebrill os bydd hynny'n cael ei ganiatáu ond byddai modd aros tan ganol mis Mai os yw CNC yn mynnu gwaharddiad).

- Bod arolygon o'r dyfrgwn i'w cynnal.

- Bod FRAP dros dro i'w gyflwyno a'i gymeradwyo gan y contractwr llwyddiannus.

- Unwaith y bydd yr atgyweiriadau sgwrfa wedi'u cwblhau a'r archwiliad yn cael ei gynnal ar y bont, yna yn amodol ar ganfyddiadau'r arolygiad, byddai modd ailagor y bont i draffig

- Ar hyn o bryd mae RhCT yn gweithio gyda'r ymgynghorwyr WSP, Mann Williams a'r arbenigwr atgyweirio concrit CRL i brofi atgyweiriadau i'r bont (gall y bont aros ar agor tra bo'r gwaith hwn yn parhau). Unwaith eto, bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer hyn a bydd yn digwydd yn ddiweddarach yn yr haf.

- Yn ddibynnol ar ganfyddiadau profi atgyweiriadau'r bont, bydd modd

datblygu'r rhain yn gynllun adfer/atgyweirio llawn a fydd yn gofyn am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.

- Roedd yn rhagweld y byddai gwaith atgyweirio yn dechrau ar y safle yn hwyr yn y gwanwyn neu yn haf 2022, yn ddibynnol ar gymeradwyaeth, a bydd gofyn am gau'r bont.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, D. R. Bevan:**
"A yw polisi cynllunio CBSRhCT wedi'i addasu i ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd ac, yn benodol, a oes gan y Cyngor bolisi sy'n ymwneud ag ailosod coed sy'n cael eu tynnu i wneud lle ar gyfer datblygu?"

**Ymateb gan y Cynghorydd D. R. Bevan:**

Atebodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai gan ddatgan fod penderfyniadau cynllunio mae'r Cyngor yn eu gwneud yn ystyried polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol – ac ar y ddwy lefel mae'n adlewyrchu'r angen dybryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad llawn o'i CDLl a bydd yn rhaid i'r CDLl "newydd" ddangos ei fod o leiaf yn cydymffurfio â'r targedau uchelgeisiol ar gyfer newid yn yr hinsawdd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegodd y bydd arolygydd annibynnol yn craffu ar hyn. Mae'r rôl y mae modd i goed a 'Seilwaith Gwyrdd' ei chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn cael ei gydnabod ar lefel leol a chenedlaethol. Ychwanegodd fod Mark Drakeford AS, y llynedd, wedi datgelu cynlluniau ar gyfer Coedwig Genedlaethol sy'n rhedeg ar hyd a lled Cymru.

Rhoddodd wybod i'r Aelodau fod coed a choedwigoedd yn amlwg yn rhan o ddatrys problemau newid yn yr hinsawdd yn fyd eang. Mae'n cael ei gydnabod fod coed yn tynnu carbon o'r aer ac yn ei ddal, yn lleihau bregusrwydd yn gymdeithasol ac o safbwynt yr ecosystem mewn hinsawdd sy'n newid, ac yn cyfrannu at lesiant pobl. Maent hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth fod o fudd i gymunedau lleol a gwarchod natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth ar draws ein bwrdeistref sirol.

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet nad oes gan y Cyngor bolisi penodol i ailblannu coed neu blannu rhai newydd. Mae'r polisi o fewn CDLl cyfredol y Cyngor yn gofyn am amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae'n resyn colli coed o ganlyniad i ddatblygiad newydd, a phryd bynnag y bo hynny'n bosibl, caiff adeiladwr/datblygwr eu hannog i gadw coed. Ychwanegodd y byddai'r Cyngor, mewn achosion lle mae coed presennol yn cael eu colli, yn ceisio, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, sicrhau bod tirlunio addas newydd yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod mai dim ond pwerau cyfyngedig sydd gan y system gynllunio ac nad yw'n gallu rheoli pob achos o dynnu coed.

**104 Trafodaeth ar Sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.2 y Cyngor, nododd y Llywydd yr hoffai wahodd yr Arweinydd i gyfarch y Cyngor, wedyn byddai'n ymateb i sylwadau Aelodau ar ei Adroddiad Blynyddol.

Agorodd yr Arweinydd ei anerchiad trwy roi sylwadau ar ba mor unigryw oedd y sefyllfaoedd yr oedd y Cyngor wedi'u hwynebu dros y flwyddyn gan roi sylwadau ar y llifogydd dinistriol ym mis Chwefror 2020 a hefyd y pandemig COVID-19 parhaus, sydd wedi trawsnewid bywydau pawb ac wedi cael effaith enfawr ar y cymunedau y mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu.

Cofnododd yr Arweinydd ei ddiolch i holl staff y Cyngor sydd wedi darparu gwasanaethau hanfodol i drigolion Rhondda Cynon Taf, gan dynnu sylw at waith darparwyr gofal cymdeithasol rheng flaen, staff cyllid, staff profi, olrhain a diogelu sydd bellach yn cefnogi'r ymgyrch frechu a'r holl staff hynny sydd wedi parhau i ddarparu'r gwasanaethau bob dydd y mae trigolion yn dibynnu arnynt. Ychwanegodd yr Arweinydd, er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd, mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni ei uchelgeisiau er budd y Fwrdeistref Sirol gyfan. Cyn darparu diweddariadau penodol ar feysydd gwasanaeth, daeth yr Arweinydd â'i anerchiad agoriadol i ben trwy nodi bod effeithiau'r pandemig yn arbennig yn mynd i lywio'r dyfodol yn ystod gweddill tymor y Cyngor a thu hwnt, gan ychwanegu y bydd y Cyngor yn parhau i adeiladu ar y sylfeini cryf sydd eisoes yn bodoli i greu'r cyfleoedd addas i sicrhau dyfodol uchelgeisiol i Rondda Cynon Taf.

**Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant (Pobl)**
Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad manwl mewn perthynas â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant gan roi gwybod am y gwasanaethau a oedd wedi'u darparu dros 2019/20

- 235 o Gymorthdaliadau Cyfleusterau i'r Anabl
- 820 o bobl wedi'u cefnogi trwy gronfa ENABLE y Cyngor o £316,000
- 352 o bobl wedi'u cefnogi trwy gynllun Tasgmon y Cyngor, a gostiodd £58,400.
- 71 o Grantiau Cymorth Atgyweirio Cynnal a Chadw wedi'u cyflwyno

Parhaodd yr Arweinydd trwy roi gwybod am y cynnydd da sydd wedi'i wneud o ran moderneiddio'r system ofal sydd ar gael ar gyfer preswylwyr hŷn yn y Sir gan gyfeirio at gynlluniau gofal ychwanegol ledled y Fwrdeistref Sirol.
Amlygodd yr Arweinydd lwyddiant y rhaglen Cadw'n Iach Gartref arobryn ac awgrymodd y dylid darparu gwybodaeth fanwl am hyn i'r Aelodau.
Gorffennodd yr Arweinydd yr agwedd hon ar ei ddiweddariad trwy roi gwybod am y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, sy'n parhau i ddarparu cefnogaeth, gyda 733 o atgyfeiriadau wedi'u gwneud eleni, a'r Gwasanaethau i Blant, gan roi gwybod i'r Aelodau bod y gwasanaeth wedi derbyn cysylltiadau mewn perthynas â 1,000 yn fwy o blant na'r llynedd, gyda'r potensial y gallai'r galw hwn gynyddu yn ystod y misoedd sydd o'n blaenau. Nododd ei bryderon ynglŷn â'r gostyngiad

o 17% yng nghyfradd y plant sy'n dod yn 'blant sy'n derbyn gofal' yn ystod y cyfnod anodd hwn a'r posibilrwydd bod problemau yn cael eu colli.

**Canolfannau yn y Gymuned**

Soniodd yr Arweinydd am sefyllfa'r Canolfannau yn y Gymuned gan roi gwybod i'r Aelodau fod y model hwn wedi cael ei ehangu i ddarparu ymateb lleol cydlynol yn ystod y pandemig, gyda'r Cyngor yn cydlynu dull amlbartneriaeth i roi cymorth i drigolion drwy ei 7 canolfan gydnerthedd.

Cafodd trigolion ar y Rhestr o Gleifion a Warchodir y cymorth canlynol:

- Cafodd 10,554 o alwadau rhagweithiol eu gwneud i weld a oedd angen cymorth;
- Gofynnodd 1,128 o drigolion am alwadau ffôn cyfeillgar parhaus;
- Nid oedd gan 1,698 o breswylwyr unrhyw gefnogaeth wrth deulu, ffrindiau na chymuned i gael gafael ar fwyd ac roeddent wedi'u cofrestru ar gyfer parseli bwyd wythnosol am ddim wrth Lywodraeth Cymru;
- Roedd darpariaeth Pryd-ar-glud ar gael i 182 o drigolion nad oedd yn gallu paratoi eu prydau eu hun;
- Derbyniodd 697 o bobl barseli bwyd brys gan Ganolfan Dosbarthu Bwyd y Cyngor gan fod ganddynt lai na 3 diwrnod o fwyd ar gael;

Ychwanegodd yr Arweinydd fod 4,030 o drigolion sy'n agored i niwed ar ben y rheini a nodwyd uchod wedi cysylltu â'r Cyngor i ofyn am gymorth, ac estynnodd yr Arweinydd ei ddiolch i'r Gwirfoddolwyr Cydnerthedd a nifer o wirfoddolwyr eraill a sefydliadau'r 3ydd sector am eu gwaith a'u cymorth yn helpu nifer o drigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Hamdden**

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Aelodau fod y Cyngor, er gwaetha'r pandemig, wedi parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau Hamdden a rhoddodd fanylion am y buddsoddiadau a wnaed gan gyfeirio at y traciau athletau sydd bellach ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**Parciau a Mannau Chwarae**

Nododd yr Arweinydd fod buddsoddiad sylweddol wedi'i gwneud ar draws parciau a mannau chwarae a dywedodd y byddai'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i'r buddsoddiad hwn yn y dyfodol.

**Ailgylchu/Yr Amgylchedd/Newid Hinsawdd**

Roedd yr Arweinydd yn falch iawn o roi gwybod am ffigurau ailgylchu cadarnhaol y Cyngor a gofnodwyd ar gyfer cyfnod y Nadolig, gyda dros 2,770 tunnell wedi'i gasglu - gan gynnwys dros 400 tunnell o wastraff bwyd. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn agos at gyrraedd targed 70% Llywodraeth Cymru.

**Priffyrdd (Lle) a Chludiant (Ffyniant)**

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau ar brosiect adfer tirlithriad Tip Tylorstown mewn perthynas â'r camau a gwblhawyd eisoes a'r rhai i'w cyflawni yn y dyfodol.

O ran Seilwaith rhoddodd yr Arweinydd fanylion mewn perthynas â phont droed Parc Ynysangharad, Dymchwel Pont y Bibell Gludo yn Abercynon ac

atgyweiriadau brys amrywiol a wnaed i amrywiol bontydd, pontydd troed, waliau cynnal a chwlferi ledled y Fwrdeistref Sirol yn dilyn Storm Dennis.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod rhaglen fawr o fesurau lliniaru llifogydd tymor byr, canolig a hir wedi cael ei chyflawni ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda rhaglen o Brosiectau Ffyrdd Gwydn, a ariannwyd gan grant o £3.1 miliwn, i liniaru effaith llifogydd ar y rhwydwaith priffyrdd.

O ran y Rhaglen Gyfalaf, cafodd yr Aelodau wybod fod y cyngor wedi parhau â'r rhaglen buddsoddi mewn trafnidiaeth trwy'r rhaglen gyfalaf flynyddol a'r rhaglen 3 blynedd gwerth £23.5 miliwn, a rhestrodd yr Arweinydd rai o'r prif gynlluniau a gwblhawyd a phrosiectau mawr fel y Ffordd Gyswllt ar Draws y Cwm, y A4119 a Ffordd Osgoi Llanharan.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r gwaith yn cychwyn yn yr haf gyda Chyfnewidfa Metro y Porth.

**Canol Trefi/Menter**
Diolchodd yr Arweinydd i'r garfan adfywio a'r garfan gyllid am eu cefnogaeth ar unwaith i fusnesau yng nghanol trefi a oedd wedi'u heffeithio gan Storm Dennis, trwy ddarparu cymorth ymarferol, cyngor a grantiau caledi gwerth £226,000.
Aeth yn ei flaen gan amlygu'r ymrwymiadau roedd y Cyngor wedi'u bodloni ar draws canol ein trefi gan gyfeirio at y Wi-fi am ddim, Strategaeth Adfywio Canol Tref y Porth, a chaffael hen Neuadd Fingo Pontypridd yn rhan o gam cyntaf ailddatblygu'r safle canolog amlwg yma.

**Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**
Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am waith a chefnogaeth yr holl staff dysgu a chymorth ar draws pob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod y pandemig, gan roi gwybod am y 25 hyb gofal plant mewn argyfwng a oedd ar waith yn ysgolion y brif ffrwd, ysgolion arbennig ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gyda chyfanswm o 787 o blant yn defnyddio'r ddarpariaeth yn rheolaidd. Diolchodd yr Arweinydd unwaith eto i'r holl staff addysgu am y gwaith a wnaed dros y pandemig gan nodi bod ymroddiad a gwaith caled yr holl staff ysgol dan sylw wedi helpu i gadw'r wlad i fynd yn ystod y pandemig. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y dulliau dysgu cymysg a'r gefnogaeth i Ddysgwyr sydd wedi'u Heithrio yn Ddigidol trwy ddarparu dyfeisiau.
O ran Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, nododd yr Arweinydd agoriad adeilad newydd Ysgol Gynradd Hirwaun, a thrafododd y cynnydd o ran adeiladau newydd ar gyfer Ysgolion Cynradd Pont-y-clun, Penygawsi a Llanilltud Faerdref. Croesawodd yr Arweinydd hefyd y cynnig sydd ynghanol proses ymgynghori ar y funud, sef adeiladu ysgol newydd gwerth £8.5 miliwn ar safle newydd i YGG Llyn y Forwyn.

**Cyflogaeth.**
O ran cyflogaeth, siaradodd yr Arweinydd yn gadarnhaol am y rhaglen i raddedigion a'r cynllun prentisiaethau a'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud yn y

cynlluniau a'r ffair yrfaoedd rithwir gyntaf un a gynhaliwyd gan y Cyngor.

**Llywodraethu**

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau am waith Llywodraethu'r Cyngor a dywedodd fod y Cyngor yn un o'r Cynghorau cyntaf yng Nghymru i sefydlu cyfarfodydd ar-lein. Manteisiodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r Pwyllgorau Craffu am eu gwaith herio hanfodol er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaethau a llywio penderfyniadau allweddol y Cyngor mewn perthynas â Gofal Preswyl, y Gyllideb a Storm Dennis. Dywedodd yr Arweinydd hefyd am y bwriad yn y dyfodol i gychwyn cyfarfodydd hybrid pan fydd cyfyngiadau yn caniatáu hynny, yn dilyn y buddsoddiad mewn technoleg well yn y Siambr a'r dull hirdymor yr oedd angen ei ddatblygu.

Gorffennodd yr Arweinydd ei anerchiad trwy nodi bod llawer o bethau cadarnhaol i'w dathlu ar ôl blwyddyn anodd iawn, ac y dylai'r Cyngor fod yn falch o'i gyflawniadau a'r gwasanaethau a ddarparwyd. Gorffennodd yr Arweinydd trwy ddiolch i Lywodraeth Cymru am yr arian a ddaeth i law, a fu'n helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau er budd ein trigolion.

Ymatebodd yr Arweinwyr Grŵp i ddadl yr Arweinwyr, gyda phob un yn talu teyrnged i'r GIG, staff y Cyngor, staff Ysgol a Gofal Plant, y sectorau manwerthu a gwirfoddol a llawer yn rhagor am eu gwaith caled a'u hymroddiad trwy gydol y pandemig.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jarman at y cydweithrediad trawsbleidiol a roddwyd ar waith wrth drafod nifer o hysbysiadau o gynnig dros y flwyddyn, gan nodi bod yr holl wrthbleidiau wedi cefnogi ymdrechion y Cyngor mewn perthynas â'r pandemig, dros yr hyn a fu'n 12 mis anodd i'r Cyngor. Cynigiodd pob un o'r Arweinwyr Grŵp gwestiynau i'r Arweinydd ar y canlynol, ac ymatebodd yr Arweinydd iddyn nhw.

- Y bwriad hirdymor ar gyfer staff y Cyngor sy'n rhan o'r cynllun ffyrlo ar hyn o bryd os nad yw'r cynllun yn ymestyn y tu hwnt i Ebrill 2021- Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd staff yn cael eu ni waeth beth fydd yn digwydd gyda'r cynllun ffyrlo ym mis Ebrill, gan ychwanegu fod hyn wedi'i gynnwys yn y Gyllideb arfaethedig sy'n mynd i gael ei chyflwyno i'r Cabinet.
- A fyddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r darpariaethau cymorth pyllau

padlo a gynigiwyd yn flaenorol gan y Cyngor, pe bai pyllau padlo yn agor yn ystod gwyliau'r Haf yn amodol ar gyfyngiadau Covid? - Pe bai cyfyngiadau'n cael eu codi, dywedodd yr Arweinydd y byddai cefnogaeth bellach yn cael ei darparu i helpu gydag agor pyllau padlo, ond soniodd yr Arweinydd am yr angen i gael cyngor ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyfarwyddwr y Cyngor ar hyfywedd agor atyniadau o'r fath oherwydd Covid.

- Beth yw cynllun y Cyngor mewn perthynas ag addysg i sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael yr holl gyfleoedd posibl er mwyn sicrhau eu bod nhw'n llwyddo yn y Byd? - Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cynnydd o fewn y gyllideb arfaethedig ar gyfer Ysgolion ac Addysg, a chyfeiriodd hefyd at y trafodaethau gyda'r Gweinidog Addysg mewn perthynas â'r darpariaethau 'dal i fyny' yr oedd angen eu dwyn ymlaen, gan dynnu sylw hefyd at anghenion o ran addysg cyfrwng Cymraeg.
- Pa drafodaethau y mae'r Cyngor wedi'u cael gyda Trafnidiaeth Cymru yn dilyn y cyhoeddiad diweddar am oedi i gynllun Metro De Cymru, a fydd yn effeithio ar gymunedau ledled RhCT? - Cyfeiriodd yr Arweinydd at drafodaethau a gyda Phrif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru, gan ddweud mai dim ond am gyfnod byr iawn y byddai'r oedi yma'n digwydd, soniodd hefyd am y gwaith sydd wedi mynd rhagddo eisoes i fwrw ymlaen â'r cynllun Metro.
- Pa effaith y mae Covid wedi'i chael ar raglen seilwaith fawr, gan gyfeirio'n arbennig at briffyrdd ledled RhCT? - Dywedwyd wrth yr Aelodau mai dim ond effaith fach a gafodd y pandemig ar y cynlluniau, gan roi diweddariad ar sefyllfa rhai o'r cynlluniau sydd ar waith ledled y Fwrdeistref Sirol.

Agorodd y Llywydd gwestiynau i'r holl Aelodau a dywedodd pe bai rhai Aelodau'n methu â chyflwyno eu cwestiwn oherwydd cyfyngiadau amser, byddai modd iddyn nhw gysylltu â'r Arweinydd yn uniongyrchol i gael ymateb.

- A4119 - Darparodd yr Arweinydd wybodaeth am yr amserlenni yr oedd y Cyngor yn gweithio iddyn nhw o ran cwblhau'r cynllun, gan nodi'r bwriad i fod ar y safle gyda'r gwaith adeiladu yn cychwyn ymhen 12 mis, yn dilyn y camau caniatâd cynllunio. Y bwriad yw y bydd y gwaith yn dod i ben yn 2024.
- Cynllun Metro De Cymru - Siaradodd yr Arweinydd am agweddau cadarnhaol ar y cynllun ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, gan nodi y byddai'r metro yn darparu cynllun trafnidiaeth mwy gwyrdd yn y dyfodol.
- Twristiaeth - Ymatebodd yr Arweinydd i'r cyfeiriad penodol a wnaed at

'ZipWorld' a soniodd am y manteision y byddai hyn yn eu cynnig i RCT, megis cyflogaeth, gan ychwanegu y bydd yr atyniad yn denu pobl drwy gydol y flwyddyn. Ychwanegodd yr Arweinydd fod galw am ddatblygu llety ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn sicrhau bod twristiaid yn aros o fewn y Fwrdeistref Sirol.

- Ysgolion a chludiant - Dywedodd yr Arweinydd fod datblygiad ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol yn seiliedig ar anghenion yr ardal a'r cymunedau y cyfeiriwyd atynt lle crëwyd ysgolion llai yn hytrach nag ysgolion 3-16 oed. Soniodd yr Arweinydd am yr adeiladau ysgol newydd ledled yr Awdurdod, a'r adeiladau mwy eco-gyfeillgar ac effeithlon a godwyd. Gorffennodd yr Arweinydd trwy drafod yr agenda werdd mewn perthynas â chludiant o'r cartref i'r ysgol, gan ddweud na fu cynnydd enfawr mewn trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol gan ychwanegu y bu gostyngiad cyffredinol mewn rhai achosion.
- Addysg Arbennig - Dywedodd yr Arweinydd fod adolygiad wedi'i gynnal mewn perthynas ag ysgolion arbennig, a nododd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar ganlyniadau'r adolygiad.
- Cynllun lleddfu llifogydd, Cwmbach - Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad am y cynllun llifogydd gwerth £450k, a gafodd ei ddwyn ymlaen yn dilyn effaith llifogydd ar fusnesau yn yr ardal yma o ganlyniad i Storm Callum ac, yn ddiweddarach, Storm Dennis. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau atal llifogydd yn y dyfodol.
- Gwasanaethau Ymatebol - Soniodd yr Arweinydd am fwy na 650 o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor sydd wedi galluogi staff i weithio'n hyblyg. Cyfeiriodd at y darpariaethau cymorth digidol sydd ar gael i staff pan fyddan nhw'n gweithio gartref a siaradodd am y nifer fach o feysydd lle nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu mwyach oherwydd diogelwch staff a thrigolion.

Diolchodd y Llywydd i'r Arweinydd am ei ddadl a'i ymatebion i'r Aelodau.

## 105 Rhaglen Waith Y Cyngor 2020/21

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad ynghylch Rhaglen Waith y Cyngor, gan nodi y byddai Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (REGP) yn dod i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth.

## 106 Diweddariad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant ddiweddariad mewn perthynas â'r Coronafeirws yn RhCT gyda chymorth

cyflwyniad PowerPoint a oedd yn nodi'r wybodaeth allweddol ganlynol: -

- Achosion Covid 19 wedi'u cadarnhau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y 7 diwrnod blaenorol
- Achosion Covid 19 wedi'u cadarnhau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y 7 diwrnod blaenorol gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg
- Tueddiadau o ran cyfraddau heintiau Covid cronnus 7 diwrnod fesul 100,00 o fewn CTM
- Niferoedd Dyddiol o Achosion Covid Positif o fewn CTM
- Gwyliadwriaeth Covid mewn Ardaloedd Lleol
- Tueddiadau wythnosol mewn marwolaethau oherwydd Covid yn ôl lleoliad
- Nifer y brechlynnau a roddwyd yn rhanbarth CTM
- Cychwyn Cam 2 ar 1 Mawrth 2021

Yn dilyn y diweddariad, cafodd pob un o'r Arweinwyr Grŵp gyfle i ofyn cwestiynau.

**Y Cynghorydd A Morgan, Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Grŵp Llafur**
Roedd yr Arweinydd yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r holl staff a fu'n cefnogi'r rhaglen gyda'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd y bydd rhagor o wybodaeth am agor canolfannau brechu pellach yn fuan iawn. Bydd hyn yn amlwg yn effeithio ar rai cyfleusterau pan fydd y cyfyngiadau'n codi, megis canolfannau hamdden sydd bellach yn ganolfannau brechu. Rhaid i'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen frechu barhau i fod yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, a gobeithio y byddai hyn yn cael ei gefnogi'n llawn gan aelodau a phreswylwyr. Dywedodd yr Arweinydd fod modd i bobl lenwi ffurflen ar-lein os ydyn nhw yng nghategori 1-4 a ddim wedi derbyn y brechlyn eto. Anogodd yr Aelodau i gyfeirio unrhyw un maen nhw'n eu hadnabod sydd o fewn y categorïau yma, ac sydd heb dderbyn brechlyn, at y ffurflen yma a rhoi cymorth iddyn nhw. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn bwriadu cyhoeddi rhif ffôn newydd y bydd modd i bobl ei ddefnyddio i archebu prawf os does dim modd iddyn nhw wneud hynny ar-lein.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud y bydd plant cyfnod sylfaen yn dychwelyd i'r ysgol ymhen pythefnos ac roedd trafodaethau ar y gweill gyda'r Gweinidogion a'r undebau ynghylch sut mae modd i ysgolion uwchradd ddychwelyd yn ddiogel. Ychwanegodd y byddai datganiad yn ei enw yn cael ei gyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddarach heno i nodi mai'r flaenoriaeth ar gyfer bob un o'r 22 Awdurdod Lleol yw i bob plentyn ddychwelyd i'r ysgol yn ddiogel cyn y caniateir i unrhyw siopau, tafarndai a bwytai eraill agor. Dywedodd y dylid defnyddio gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer plant sy'n dychwelyd i fyd addysg, ac y byddai'n aros am arweiniad gan y prif swyddog meddygol ynghylch pryd mae hyn yn bosibl

**Y Cynghorydd P Jarman (Arweinydd Grŵp, Grŵp Plaid Cymru)**

Dywedodd y Cynghorydd Jarman mai dim ond pan fydd modd casglu'r data y bydd modd i ni ddeall pam mae nifer y marwolaethau yn ardal RhCT mor uchel. Roedd hi'n bryderus am gyfradd yr haint mewn rhai wardiau, Tylorstown er enghraifft, ond hefyd y gyfradd ledled y Fwrdeistref. Roedd hi'n awyddus i weld y data er mwyn canfod a allai'r rhain fod o ganlyniad i bobl sydd methu fforddio colli'r gwaith wrth hunan-ynysu, gan nad ydyn nhw'n gymwys i dderbyn unrhyw fudd-daliadau.

Gofynnodd y Cynghorydd Jarman i'r Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau'r Gymuned a oedd y rhaglen frechu Lefel 2 yn targedu pobl 60-70 oed yn unig?

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau'r Gymuned, bod y garfan rheoli digwyddiadau yn ymchwilio i achosion unrhyw glystyrau a nodir gan y carfanau Olrhain Cysylltiadau, ac yn nodi unrhyw gamau addas y mae modd eu rhoi ar waith. Ychwanegodd fod y garfan yn ymgymryd â "olrhain cysylltiadau am yn ôl" sy'n ddull ehagach ac sy'n mynd yn ôl ymhellach. Bydd yn gwneud hyn gydag unrhyw achosion newydd er mwyn nodi ffynhonnell yr achos a ddeall pam mae'r ardal benodol wedi achosi problem. Mae hyn hefyd yn digwydd o ran gweithleoedd a galwedigaethau.

O ran y rhaglen frechu, hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyfadran yr Aelodau y byddai grwpiau 1-4 yn cael brechiad erbyn 14 Chwefror, a dywedodd y byddai'r ail gam (4-9) sef brechiad i bawb dros 50 oed, yn dod i ben erbyn diwedd mis Mai.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell, Grŵp Annibynnol RhCT**
Cyfeiriodd y Cynghorydd Powell at y data a oedd yn cael ei ddarparu i Aelodau, ac roedd yn pryderu nad oedd y wybodaeth yn ddigon clir, ac yn ei gwneud hi'n anodd gweld pa wardiau oedd yn wynebu'r effaith fwyaf niweidiol. Ychwanegodd y byddai wedi elwa ar gael golwg ar y data cyn y cyfarfod. Nododd nad yw'r data yn nodi trosglwyddiad yn yr ysbyty o hyd ac roedd yn pryderu y byddai'r manylion am rywun sy'n dal y feirws yn yr ysbyty yn cael ei gysylltu â chyfeiriad cartref yr unigolyn hwnnw, gan roi darlun anghywir o'r sefyllfa o ran trosglwyddo yn yr ysbyty. Gofynnodd am eglurhad ynghylch adleoli canolfannau brechu, a hefyd a oedd y grwpiau blaenoriaeth yn cynnwys gweithwyr hanfodol fel gweithwyr gofal cymdeithasol ac athrawon.

Ymatebodd Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau'r Gymuned fod llawer o'r data ar gael i'r cyhoedd ac y gallai ddarparu'r dolenni i'r wybodaeth i'r Aelodau eu gweld. Ymddiheurodd nad oedd ganddo ddata fesul ward i'w ddangos.

O ran y data ar gyfer trosglwyddiadau a gafwyd mewn ysbytai, dywedodd fod y cyfraddau heintiau yn gostwng, ond roedd achosion o hyd mewn rhai ysbytai, er bod pethau'n gwella'n sylweddol. Mewn perthynas â'r data sy'n ymwneud â'r man preswylio a throsglwyddiadau a gafwyd mewn ysbytai, dywedodd fod y niferoedd mor isel fel na fydden nhw'n cael unrhyw effaith ar yr wybodaeth a ddarperir yn y cyflwyniad, felly gobeithiodd y byddai hyn yn rhoi sicrwydd i'r aelodau fod yr hyn a gyflwynwyd yn adlewyrchu cynrychiolaeth gywir ar gyfer y wardiau hynny

Cadarnhaodd fod y canolfannau brechu yn ddibynadwy ar y cyflenwad o frechlynnau a gaiff eu derbyn, a chan fod nifer y brechlynnau Pfizer yn gyfyngedig, cafodd y rhain eu blaenoriaethu ar gyfer brechlynnau ail ddos, mae effaith hyn yn golygu y byddai rhai o'r canolfannau brechu yn cael eu cau dros

dro ond y bydden nhw'n ailagor unwaith y byddai'r cyflenwad Pfizer wedi'i adnewyddu a cham dau yn dechrau.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y grwpiau blaenoriaeth 5-9 yn cynnwys preswylwyr dros 50 oed hyd at 65 oed, ac yn cynnwys y rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol a restrwyd yn gyhoeddus. Roedd y grwpiau blaenoriaeth yn canolbwyntio ar atal marwolaethau a oedd yn ymwneud yn bennaf ag oedran.

**Y Cynghorydd A Morgan, Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Grŵp Llafur**
Ychwanegodd yr Arweinydd y bydd diweddariad pellach yn cael ei gyhoeddi yfory am y canolfannau brechu torfol a'u hadleoliad er mwyn paratoi ar gyfer cam nesaf y rhaglen.

Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau nad oedd y broblem o ran cyflenwi'r brechlyn Pfizer yn fater sy'n ymwneud ag RhCT, a'i bod yn broblem ledled y wlad. Er y gallai'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd agor llawer yn rhagor o ganolfannau brechu, dywedodd eu bod yn dibynnu ar y cyflenwad o frechlynnau sy'n dod i law, a bod y rhain yn cael eu dosbarthu yn ôl niferoedd y boblogaeth. Ychwanegodd fod y canolfannau brechu hefyd yn canolbwyntio ar ddosbarthu ail ddos o'r brechlynnau ac y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi maes o law.

**107 Rhybuddion o Gynigion**

**A.** Trafod y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Forey, J. Bonetto, L. M. Adams, D. R. Bevan, H Boggis, S. Bradwick, J. Brencher, A Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J. Edwards, J Elliott, S. Evans, M Fidler Jones, , A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen Jones, S Pickering, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, W Treeby, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis ac R. Yeo

Mae effeithiau pandemig COVID-19 ar gymunedau, busnesau a theuluoedd ledled y wlad yn sylweddol ac fe'u trafodwyd mewn nifer o fforymau ac ar amrywiaeth o lwyfannau. Mae miliynau o bobl wedi dioddef colled ariannol ar ôl colli swyddi neu gwymp o ran masnach, tra bod cyfnodau hir o gyfyngiadau wedi'u gosod ar eu bywydau beunyddiol.

Ar ddechrau'r pandemig, honnodd y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys y bydden nhw'n “rhoi eu breichiau o gwmpas” pawb yn ystod yr argyfwng cenedlaethol, a chyflwynon nhw nifer o becynnau cymorth y wladwriaeth. Un o'r mesurau yma oedd cynydd o £20 yr wythnos i swm y taliad Credyd Cynhwysol, a oedd o fudd i bron i chwe miliwn o hawlwyr ledled y DU sydd naill ai ar incwm isel neu'n ddi-waith. Rhoddodd hyn gymorth sylweddol i'r rhai yr oedd angen y gefnogaeth fwyaf yn ystod y cyfnod digynsail yma, gydag elusennau a sefydliadau yn galw'r codiad yn “achubiaeth” a'r rhai a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol yn dweud ei fod yn golygu bod modd iddyn nhw gael "prin digon, yn hytrach na dim."

Nawr, bron i flwyddyn yn ddiweddarach - gyda'r pandemig yn dal i daflu cysgod dros ein bywydau beunyddiol, mae sôn bod Llywodraeth Geidwadol y DU yn adolygu'r cynnydd, ac mae honiad bod y Prif Weinidog yn bwriadu ei ddileu. Mae'r posibilrwydd o dynnu cymorth o'r fath yn ôl yn dangos unwaith eto nad yw Llywodraeth San Steffan yn ystyried teuluoedd yn flaenoriaeth, a hynny ar adeg pan mae pethau wedi gwaethygu i lawer, gyda rhagor o bobl yn colli eu swyddi bob dydd o ganlyniad i'r pandemig.

Yn Rhondda Cynon Taf yn unig, mae tua 17,000 o bobl (ym mis Rhagfyr 2020) yn hawlio Credyd Cynhwysol a bydd cael gwared ar y taliad wythnosol yn ergyd i lawer yn ein cymunedau ar adeg pan mae cefnogaeth y wladwriaeth mor hanfodol.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Bod y taliad ychwanegol o £20 o Gredyd Cynhwysol yr wythnos yn hwb hanfodol i filiynau, ac na ddylid ei ddileu yn ystod y pandemig. Byddai hyn yn cael yr effaith galetaf ar gymunedau fel Rhondda Cynon Taf

ac yn **penderfynu**:

- Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog cyn cyhoeddi'r gyllideb ar 3 Mawrth i amlinellu gwrthwynebiad y Cyngor hwn i'r bwriad o gael gwared ar y cynnydd o £20 yr wythnos mewn taliadau Credyd Cynhwysol tra bo'r pandemig yn parhau

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cyflwynodd y cynigydd newid i'r Cynnig gwreiddiol, sef dileu'r cyfeiriad at y pandemig.

Dyma'r Cynnig wedi'i ddiwygio:

Mae effeithiau pandemig COVID-19 ar gymunedau, busnesau a theuluoedd ledled y wlad yn sylweddol ac fe'u trafodwyd mewn nifer o fforymau ac ar amrywiaeth o lwyfannau. Mae miliynau o bobl wedi dioddef colled ariannol ar ôl colli swyddi neu gwymp o ran masnach, tra bod cyfnodau hir o gyfyngiadau wedi'u gosod ar eu bywydau beunyddiol.
Ar ddechrau'r pandemig, honnodd y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys y bydden nhw'n "rhoi eu breichiau o gwmpas" pawb yn ystod yr argyfwng cenedlaethol, a chyflwynon nhw nifer o becynnau cymorth y wladwriaeth. Un o'r mesurau yma oedd cynydd o £20 yr wythnos i swm y taliad Credyd Cynhwysol, a oedd o fudd i bron i chwe miliwn o hawlwyr ledled y DU sydd naill ai ar incwm isel neu'n ddi-waith. Rhoddodd hyn gymorth sylweddol i'r rhai yr oedd angen y gefnogaeth fwyaf yn ystod y cyfnod digynsail yma, gydag elusennau a sefydliadau yn galw'r codiad yn "achubiaeth" a'r rhai a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol yn dweud ei fod yn golygu bod modd iddyn nhw gael "prin digon, yn hytrach na dim."
Nawr, bron i flwyddyn yn ddiweddarach - gyda'r pandemig yn dal i daflu cysgod dros ein bywydau beunyddiol, mae sôn bod Llywodraeth Geidwadol y DU yn adolygu'r cynnydd, ac mae honiad bod y Prif Weinidog yn bwriadu ei ddileu. Mae'r posibilrwydd o dynnu cymorth o'r fath yn ôl yn dangos unwaith eto nad yw Llywodraeth San Steffan yn ystyried teuluoedd yn flaenoriaeth, a hynny ar adeg pan mae pethau wedi gwaethygu i lawer, gyda rhagor o bobl yn colli eu swyddi bob dydd o ganlyniad i'r pandemig.
Yn Rhondda Cynon Taf yn unig, mae tua 21,000 o aelwydydd (ym mis Rhagfyr 2020) yn hawlio Credyd Cynhwysol a bydd cael gwared ar y taliad

wythnosol yn ergyd i lawer yn ein cymunedau ar adeg pan mae cefnogaeth y wladwriaeth mor hanfodol.
Mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Bod y taliad ychwanegol o £20 o Gredyd Cynhwysol yr wythnos yn hwb hanfodol i filiynau, ac na ddylid ei ddileu. Byddai hyn yn cael yr effaith galetaf ar gymunedau fel Rhondda Cynon Taf

ac yn **penderfynu**:

- Bydd Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys a'r Prif Weinidog cyn cyhoeddi'r gyllideb ar 3 Mawrth i amlinellu gwrthwynebiad y Cyngor hwn i'r bwriad o gael gwared ar y cynnydd o £20 yr wythnos mewn taliadau Credyd Cynhwysol.

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Jarman, H Fychan, E Webster, G Davies, A Chapman, S Evans, L Jones, E Stephens, S Rees Owen, M Weaver, J Williams, A Cox, D Grehan, E Griffiths, K Morgan, J Cullwick a J Davies.

Yng ngoleuni'r newid arfaethedig i'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol, penderfynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman dynnu'r diwygiad a gyflwynwyd gan grŵp Plaid Cymru yn ôl cyn iddo gael ei drafod.

Yn dilyn trafodaethau am y Rhybudd o Gynnig gwreiddiol, diwygiedig, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig yma unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor 12.7.

***

**B.** Trafod yr Hysbysiad o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell, L Walker, P Howe, G Williams, M Diamond, K Jones, W Jones ac W Owen.

Mae'r Cyngor yma'n yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, sy'n nodi'r cynnig canlynol i'w ystyried:

Y dylai unrhyw gwestiynau a gaiff eu cyflwyno ar gyfer cyfarfod y Cyngor llawn gael eu gwrthod os oes modd dod o hyd i'r ateb yn hawdd ar wefan y Cyngor, neu os yw'r Gwasanaethau i Gynghorwyr wedi darparu'r wybodaeth yma i Gynghorwyr eisoes yn ystod y chwe mis diwethaf. Wedyn, dylid cyfeirio'r Aelod at yr wybodaeth berthnasol sydd ar gael yn hawdd

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol 10.4.1 o Weithdrefn y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol wedi'i dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P Jarman, H Fychan, E Webster, G Davies, A Chapman, S Evans, L Jones, E Stephens, S Rees Owen, M Weaver, J Williams, A Cox, D Grehan, E Griffiths, K Morgan, J Cullwick a J Davies.

Roedd y Cynnig Diwygiedig yn nodi:

Mae'r Cyngor yma'n yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i

gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol, sy'n nodi'r cynnig canlynol i'w ystyried:

Mae'r Cyngor yma'n rhagdybio bod y cynnig hwn wedi'i gyflwyno o ganlyniad i'r cwestiwn heb ei ateb a gyflwynwyd ar 11 Tachwedd 2020 yn ymwneud â threfniadau cwestiynau.

Mae'r Cyngor yma'n yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno sy'n nodi'r protocol arfaethedig o ran derbyn Cwestiynau gan Aelodau a'u hateb. Bydd yr adroddiad yma yn cynnwys pa mor briodol neu amhriodol yw gwrthod cwestiwn trwy gymhwyso rheol 6 mis sy'n rhan o'r protocol y dibynnir arno yn rheol gweithdrefn 14.1 a 14.2 ar gyfer gwrthod cynigion coll neu i ddiddymu penderfyniad blaenorol y Cyngor.

Mae eisoes rheolau ar gyfer sesiynau holi ac ateb mwy cynhyrchiol a ddylai ddileu dyblygu ac ailadrodd, ond ni chânt eu dilyn yn gyffredinol.

Nodir y rhain yn Rheol gweithdrefn 9.5 y Cyngor hwn, sy'n ymwneud ag ateb cwestiynau a all fod ar ffurf (b) pan fo'r wybodaeth a ddymunir mewn cyhoeddiad gan y Cyngor neu waith cyhoeddedig arall, cyfeirir at y cyhoeddiad hwnnw. Bydd ateb o'r fath yn ddigonol ond ni ddibynnir arno byth. Yn lle hynny, mae ymatebion hir sy'n dibynnu ar wybodaeth a gyhoeddwyd yn flaenorol, yn gyffredin. Mae hyn yn ei dro hefyd yn lleihau'r cyfle i ofyn rhagor o gwestiynau yn y slot 20 munud a neilltuwyd ar gyfer Cwestiynau'r Aelodau.

Fel nad oes amheuaeth o ran cymhwyso rheol 9.6 sy'n ymwneud â chwestiynau atodol, mae hawl awtomatig i ofyn cwestiwn o'r fath yn ôl y Cyfansoddiad yn amodol ar ofyn ac ateb y cwestiwn cyntaf.

Diben a phwrpas y cynnig yw symleiddio a chynyddu'r cyfleoedd i Aelodau graffu ar Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau, trwy eu holi am faterion manwl neu ddiweddariadau ar faterion y gallent fod â chyfrifoldeb ac atebolrwydd drostynt, ond nad ydynt wedi cael eu gwneud yn hysbys yn gyffredinol neu'n gyhoeddus.

Dyma'r rhesymeg o ofyn bod adroddiad Swyddog yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol er mwyn adolygu ac adnewyddu'r rheolau sy'n ymwneud â Chwestiynau Aelodau, os yw'n briodol}.

Yn dilyn trafodaeth ar y mater yma, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â'i mabwysiadu.

Yn dilyn trafodaethau bellach ar y cynnig gwreiddiol yr oedd **PENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**NODWCH:**

- Yn ystod y drafodaeth **PENDERFYNWYD** parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor, er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

**This meeting closed at 8.10 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Chairman.**